# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 5**

COSBAU

**PENNOD 3**

COSBAU AM ANGHYWIRDEBAU

*Dehongli*

**142 Dehongli Pennod 3**

Yn y Bennod hon—

(a) mae cyfeiriad at roi dogfen i ACC yn cynnwys—

(i) cyfeiriad at gyfleu gwybodaeth i ACC ar unrhyw ffurf ac mewn unrhyw fodd (boed drwy'r post, ffacs, e-bost, ffôn neu fel arall), a

(ii) cyfeiriad at wneud datganiad mewn dogfen;

(b) mae cyfeiriad at ddychwelyd ffurflen dreth neu at wneud unrhyw beth mewn perthynas â ffurflen dreth yn cynnwys cyfeiriad at ddiwygio ffurflen dreth neu at wneud unrhyw beth mewn perthynas â ffurflen dreth ddiwygiedig;

(c) mae cyfeiriad at golled yn cynnwys cyfeiriad at dâl, traul, diffyg ac unrhyw swm arall a all fod ar gael ar gyfer didyniad neu **[**[F1]ryddhad**]**, neu y gellir dibynnu arno er mwyn hawlio didyniad neu **[**[F1]ryddhad**]**;

(d) mae cyfeiriad at weithred yn cynnwys cyfeiriad at anweithred.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn a. 142(c) wedi ei amnewid (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 52**; O.S. 2018/34, ergl. 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 142 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 142 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Dehongli.